Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant:  Monitro gan Estyn

**Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Y Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4WB**

**Dyddiad yr ymweliad:  Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Barnwyd bod Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012.

Bydd Estyn yn ail-arolygu'r bartneriaeth ar ôl cyhoeddi adroddiadau deilliannau i ddysgwyr 2012-2013. Bydd arolygwyr Estyn yn parhau i ymweld â'r bartneriaeth yn y cyfamser i gadw golwg ar ei chynnydd.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Gwella cyfraddau llwyddiant i bob dysgwr yn unol â chymaryddion cenedlaethol a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch.**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

At ei gilydd, bu cynnydd ar draws y bartneriaeth yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus. Mae data'r bartneriaeth heb ei ddilysu ar gyfer 2012-2013 yn dangos gwelliant pellach. Fodd bynnag, mae llawer o sectorau o gwmpas y cymaryddion cenedlaethol neu'n is o hyd.

Mewn Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), nid yw tua chwarter y dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau lefel mynediad yn llwyddiannus, ac nid yw tuag un o bob pump ohonynt yn cwblhau eu cyrsiau lefel 1 yn llwyddiannus. Nid yw digon o ddysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau lefel 2 mewn ASO.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) yn llwyddiannus ar lefel 1. Fodd bynnag, ar lefel mynediad a lefel 2, nid yw tuag un rhan o bump o ddysgwyr yn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus yn dda o gymharu â dysgwyr mewn partneriaethau eraill. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr mewn Celf, y Cyfryngau a Chyhoeddi yn is o lawer na dysgwyr eraill yn y sector.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu proses ddefnyddiol ar gyfer olrhain dilyniant yng Ngholeg Penybont ac ar gyfer casglu gwybodaeth gan bartneriaid eraill. Mae wedi gosod targedau ar gyfer nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Mae cynlluniau dysgu unigol yn gofyn yn ddefnyddiol i ddysgwyr ystyried eu posibiliadau ar gyfer dilyniant. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad strategol i ddarganfod pa lwybrau dilyniant sydd eu hangen, gan gynnwys llwybrau i addysg uwch, a sut y gellir cynnig y rhain.

**Argymhelliad 2: Gwella'r broses o asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud i wella'u deilliannau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r bartneriaeth wedi cynnal hyfforddiant defnyddiol a chynhwysfawr iawn i athrawon gael gwybod am arfer orau mewn asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu, a'i thrafod. Edrychodd arolygwyr ar samplau o waith dysgwyr a chanfod bod athrawon yn ei farcio'n effeithiol ac yn rhoi sylwadau defnyddiol sy'n dweud wrth y dysgwyr beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan y cynlluniau dysgu unigol newydd ffocws penodol ar adolygu cyflawniad targedau a nodau dysgu. Mae pob dysgwr yn gosod hyd at dri tharged dysgu ac yn eu trafod yn briodol â'u hathro. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynnal asesu ar gyfer dysgu yn ddigon da ar ddechrau cyrsiau, yn enwedig mewn ASO. O ganlyniad, ni all athrawon argymell targedau penodol, byr i ddysgwyr i'w helpu i fesur eu cynnydd trwy gydol y cwrs. Nid yw targedau dysgwyr ar lawer o gynlluniau dysgu unigol ar gyfer DOG yn ddigon penodol.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu ffurflen arsylwi gwersi fanwl i'w defnyddio ar draws bron pob un o'r darparwyr yn y bartneriaeth. Mae gan y ffurflen hon ffocws priodol ar gynnydd a dilyniant dysgwyr, asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y fenter hon.

**Argymhelliad 3: Gwella cynllunio'r cwricwlwm i:**

- **nodi angen;**
- **nodi grwpiau targed;**
- **cynllunio llwybrau dilyniant; a**
- **chynyddu cyfleoedd dysgu dwyieithog a dysgu cyfrwng Cymraeg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi gwella cynllunio'r cwricwlwm trwy drefnu'r dysgu y mae'n ei gynnig i fodloni medrau ac agenda les. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddysgu ffocws cryfach ar fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae bwrdd strategol y bartneriaeth yn cymeradwyo cynlluniau cyrsiau yn flynyddol.

At ei gilydd, mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth dda o'r ystod o anghenion dysgu yn yr ardal. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod bylchau yn ei dealltwriaeth o anghenion dysgu oedolion ar lefel gymunedol. Mae'n ymateb yn briodol i hyn trwy ystod o fentrau rhwydweithio i ddadansoddi anghenion parhaus, gan gynnwys gyda Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o ystod o ddata i lywio ei gynllunio. Hefyd, mae'n defnyddio data yn dda i adnabod grwpiau targed, fel oedolion dros 50 oed y mae lefelau eu medrau sylfaenol yn cyfyngu ar eu hyblygrwydd yn y farchnad swyddi.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu strategaeth farchnata ddefnyddiol. Mae hyn yn helpu i nodi grwpiau targed ac yn awgrymu ffyrdd y gellir eu denu i ddysgu. Mae'r strategaeth yn cynnwys mesurau allbwn a ddefnyddir i farnu effeithiolrwydd y dulliau amrywiol.

Mae'r bartneriaeth wedi cynhyrchu llyfryn cyrsiau deniadol ar y cyd, ynghyd â gwefan ddefnyddiol, sy'n nodi cyfleoedd dilyniant yn glir. Mae enghreifftiau da o ddysgwyr yn

symud ymlaen o ddysgu anffurfiol i ddysgu mwy ffurfiol.  Er enghraifft, mae bron pob dysgwr yn symud ymlaen o'r prosiect e-libs ar ddysgu digidol i ddosbarthiadau llythrennedd a rhifedd ffurfiol.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.  Mae wedi recriwtio tiwtoriaid ychwanegol Cymraeg eu hiaith ac yn eu defnyddio'n hyblyg.  Hefyd, mae'r bartneriaeth yn mabwysiadu ffyrdd mwy creadigol o ymgorffori'r dimensiwn Cymreig mewn cyrsiau.  Mae'n ehangu cyfleoedd i ddysgu am Gymru trwy gyfrwng y Saesneg.  Er enghraifft, mae'n cynnig cyrsiau ar hanes Cymru a daeareg a daearyddiaeth Cymru.

**Argymhelliad 4:  Gwella cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau hanfodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r bartneriaeth wedi cynhyrchu Strategaeth ASO sy'n nodi'n briodol yr elfennau allweddol sydd ynghlwm wrth fynd i'r afael â phrinder medrau oedolion sy'n dysgu ym Mhen-y-bont ar Ogwr.  Fodd bynnag, nid yw'n dweud yn ddigon clir sut mae'r gwaith hwn yn cysylltu â chynlluniau is-grŵp medrau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.  Nid yw'r cynllun yn mynd i'r afael ychwaith ag agweddau arwain a rheoli ASO yn ddigon da.  Fodd bynnag, er mwyn cydnabod yr angen i gryfhau'r modd y caiff ASO a SSIE eu rheoli, mae'r coleg yn ailstrwythuro trefniadaeth y meysydd pwnc hyn i wella cynllunio, cydlynu ac ansawdd darpariaeth.

Mae is-grŵp y bartneriaeth yn defnyddio cynllun gweithredu yn briodol i fonitro gweithrediad y strategaeth yn rheolaidd.  Fodd bynnag, mae'r dyddiadau cwblhau ar gyfer llawer o'r camau gweithredu yn rhy bell yn y dyfodol ac nid yw'r cynllun yn nodi cerrig milltir interim.  O ganlyniad, ni all y bartneriaeth fod yn siŵr y caiff y camau gweithredu hyn eu cwblhau'n brydlon.  Nid yw rhai o gamau gweithredu'r bartneriaeth, fel y rhai ar gyfer ymgysylltiad a'r cwricwlwm, wedi eu gosod yn ddigon manwl i sicrhau y caiff yr amcanion yn eu bodloni.

Mae gan y bartneriaeth gynlluniau datblygu staff uchelgeisiol i'r holl staff ASO, DOG a staff cymorth ymgymryd â hyfforddiant 'Cyflwyno Sgiliau Hanfodol Cymru'.  Fodd bynnag, nid yw wedi gosod targedau blynyddol ar gyfer nifer y staff mae'n bwriadu eu hyfforddi.  Yn ogystal, nid yw rheswm y bartneriaeth dros osod y cymhwyster gofynnol ar gyfer staff ASO ar Lefel 3 Cyflenwi Sgiliau Hanfodol Cymru yn glir.

Mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd effaith y strategaeth ar ddeilliannau i ddysgwyr.

**Argymhelliad 5:  Gwella cydlynu gofal, cymorth ac arweiniad i wneud yn siŵr ei fod yn helpu dysgwyr i wella'r safonau y maent yn eu cyflawni**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda i ddatblygu gweithdrefnau newydd ar gyfer cydlynu cymorth i ddysgwyr.  Mae is-grŵp dysgwyr y bartneriaeth wedi cyflwyno proses ar gyfer casglu gwybodaeth gan ddysgwyr naill ai wrth iddynt ymrestru neu ar ddechrau eu cwrs.

Rhoddodd y bartneriaeth y gweithdrefnau hyn ar waith ym mis Medi 2013. Mae'r prosesau newydd eisoes wedi helpu darparwyr i nodi anghenion cymorth dysgu ynghynt ac, o ganlyniad, maent wedi rhoi cymorth priodol ar waith.

Mae'r is-grŵp dysgwyr yn bwriadu cynnal panel cymorth i ddysgwyr bob tymor. Bydd y panel yn adolygu a yw'r cymorth a roddir i ddysgwyr unigol yn eu helpu i gyflawni eu nodau dysgu. Hefyd, mae partneriaid wedi cynyddu cymorth i diwtoriaid i'w helpu i gynnig cymorth gwell i ddysgwyr.

Mae'r is-grŵp dysgwyr hefyd wedi cael cytundeb gan bob partner i gasglu gwybodaeth gryno am ystod y cymorth sy'n cael ei gynnig a pha mor dda y mae wedi helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau. Bydd hyn yn rhoi set data well i'r bartneriaeth am anghenion cymorth i'w defnyddio i gynllunio a dyrannu adnoddau.

Mae Coleg Penybont wedi creu cronfa ddata dysgwyr newydd sy'n casglu manylion am ddysgwyr unigol, eu cyfranogiad mewn dysgu, eu hanghenion cymorth a'r cynnydd a wnânt o ran magu hyder. Dros amser, mae'r coleg yn bwriadu defnyddio'r gronfa ddata hon i wella ei ddealltwriaeth o'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr ac effaith y cymorth y mae'n ei ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

**Argymhelliad 6: Gwella cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned yn strategol er mwyn**

- **cytuno ar nodau ac amcanion strategol;**
- **nodi dangosyddion perfformiad a thargedau mesuradwy;**
- **cytuno ar gyfrifoldebau partneriaid; a**
- **gwella gallu'r bartneriaeth i gydlynu ei gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da iawn o ran gwella cynllunio strategol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r bartneriaeth wedi nodi sut y bydd yn cryfhau cynllunio trwy gydweithio'n agosach â Chymunedau yn Gyntaf a gwaith datblygu cymunedol. Mae'n bwriadu gwella'r dadansoddiad o anghenion a chynllunio'r cwricwlwm. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith hyn yn llawn ar ddeilliannau i ddysgwyr.

Mae'r bartneriaeth wedi adolygu ei rôl ac wedi cynhyrchu strategaethau clir, ac mae ei nodau yn gyson â nodau'r bwrdd gwasanaethau lleol a chynllun gwella sengl y cyngor, ac yn cyd-fynd â nhw. Mae'r strategaeth yn gosod amcanion a thargedau perfformiad, y mae'r bartneriaeth yn eu defnyddio i strwythuro ei chynllun datblygu ansawdd. Mae bwrdd strategol y bartneriaeth yn monitro cynnydd tuag at weithredu amcanion y cynllun datblygu ansawdd yn ystod cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r bwrdd yn cael adroddiadau defnyddiol sy'n ei alluogi i gadarnhau bod cyfradd y cynnydd yn dda. Mae aelodau'r bwrdd yn darparu lefel dda o her i'r partneriaid.

Mae partneriaid allweddol wedi adolygu a nodi sut y gallant ddatblygu'r bartneriaeth orau, gan arwain at y coleg yn cytuno i fod yn gyfrifol am gyflwyno'r ddarpariaeth medrau oedolion, gan gynnwys Medrau Sylfaenol/Hanfodol, TGCh a Medrau ar gyfer Cyflogaeth. Ar yr un pryd, mae'r awdurdod lleol wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddatblygu darpariaeth les, gan nodi a chynnig darpariaeth sy'n mynd i'r afael ag ymgysylltu â'r gymuned, iechyd a lles a hyrwyddo lles teuluoedd. Mae hyn wedi

gwella ffocws gwaith y partneriaid ac wedi ailfywiogi'r bartneriaeth.

Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd y coleg yn bwriadu cyflogi rheolwr i'r bartneriaeth. Mae gweithredu'r cynllun hwn wedi cael effaith dda ar gydlynu cynllunio a datblygu gwasanaethau ac wedi bod yn gatalydd gwerthfawr ar gyfer gwella. Mae hybu adnoddau'r bartneriaeth fel hyn wedi gwella monitro perfformiad a'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i bartneriaid, ac wedi sicrhau bod partneriaid yn cwblhau gwaith cyn pen terfynau amser cytûn.

**Argymhelliad 7: Gwella systemau i fonitro ac arfarnu perfformiad y bartneriaeth a'r trefniadau ar gyfer craffu ar ansawdd ac effaith gwaith y bartneriaeth, a'i herio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r bartneriaeth wedi gwella ei gallu i fonitro ac arfarnu ei pherfformiad. Mae wedi sefydlu ystod o brosesau a gweithdrefnau sydd â'r nod o roi mwy o ffocws ar herio perfformiad y bartneriaeth ac ansawdd ei gwaith. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y mae'r bartneriaeth wedi rhoi'r mentrau hyn ar waith ac ni all ddangos eu heffaith yn llawn, hyd yn hyn.

Er enghraifft, mae bwrdd strategol y bartneriaeth wedi cynyddu ei rôl o ran monitro ac asesu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn perfformio. Mae'n defnyddio ystadegau cenedlaethol yn briodol i asesu deilliannau i ddysgwyr ac yn nodi cyrsiau a phynciau nad ydynt yn perfformio'n dda. O ganlyniad, mae'r bwrdd strategol wedi rhoi'r cyfrifoldeb i bartneriaid unigol wella cyrsiau sy'n tanberfformio.

Mae'r coleg wedi cryfhau ei strwythur staffio i wella'r modd y mae'n rheoli ansawdd y ei ddarpariaeth DOG. Mae'n bwriadu penodi staff â ffocws cynyddol ar feysydd pwnc DOG a gwella ansawdd y meysydd pwnc hyn. Bydd hyn yn dod â'r aelodau staff hyn yn nes at y gwaith ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o berfformiad y meysydd pwnc hyn.

Mae'r bartneriaeth wedi rhoi siarter ansawdd ar waith sy'n gosod meini prawf i sicrhau bod partneriaid yn gweithio yn unol â safonau cyffredin a bod cysondeb yn eu prosesau ansawdd. Mae'r siarter yn pennu cylch ansawdd blynyddol sy'n rhoi cyfrifoldebau i bartneriaid dros gwblhau gweithgareddau hunanasesu cyffredin o fewn terfynau amser cytûn. Nod y siarter yw helpu partneriaid i gynnal ffocws ar weithgareddau gwella a hunanasesu.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar strategaeth llais y dysgwr i helpu dysgwyr i lywio pob agwedd ar waith y bartneriaeth. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ystod o ffyrdd y bydd y bartneriaeth a'r partneriaid cyfansoddol yn clywed barn dysgwyr. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu cynnal ei fforwm dysgwyr cyntaf ym mis Tachwedd.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r bartneriaeth gynnal momentwm wrth weithio tuag at gyflawni argymhellion yr arolygiad na aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn hyd yn hyn.

## Sylwadau terfynol

Mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad. Mae wedi gweithio'n dda i ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau, cytuno ar flaenoriaethau a rhoi systemau a phrosesau newydd ar waith. Mae'r coleg wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i gynyddu gallu'r bartneriaeth i ddatblygu a gwella darpariaeth i ddysgwyr a chymunedau.